**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

# Trefniadau ar gyfer Plant mewn Gofal: crynodeb ac argymhellion mewn iaith syml

Gorffennaf 2010

## Beth yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru?

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru’n cynnwys 60 o Aelodau Cynulliad o bob rhan o Gymru. Maen nhw'n cael eu hethol gan bobl Cymru i’w cynrychioli nhw a’u cymunedau, i wneud cyfreithiau ar gyfer Cymru, ac i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gwneud ei gwaith yn iawn.

## Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Rydym yn grŵp o bump Aelod Cynulliad sy'n gweithio yn y Cynulliad Cenedlaethol yng Nghaerdydd. Pobl Cymru sydd wedi pleidleisio drosom i wneud hyn. Ein gwaith ni yw sicrhau bod Llywodraeth Cymru, sef y bobl sy'n gwneud penderfyniadau am bethau a phenderfyniadau am sut i wario arian yn gwneud eu gwaith yn iawn. Enw ein grŵp yw'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc.

## Aelodau'r Pwyllgor



Helen Mary Jones (Cadeirydd)



Angela Burns



Eleanor Burnham



Sandy Mewies



Joyce Watson

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Geirfa | tudalen 1 |
| Neges gan y Cadeirydd | tudalen 2 |
| Crynodeb ac argymhellion | tudalen 4 |

## Geirfa

- **Cadeirydd:** Cadeirydd y Pwyllgor yw'r Aelod y mae gweddill y Pwyllgor wedi'i ethol i siarad ar eu rhan. Ni all y Cadeirydd wneud penderfyniadau dros yr Aelodau eraill na dweud wrth y Pwyllgor beth i'w wneud.
- **Mewn gofal:** pan fydd plentyn neu berson ifanc yn cael rhywle newydd i fyw ynddo gan yr awdurdod lleol, oherwydd na allant aros adref, gall y plentyn neu berson ifanc fod 'mewn gofal'.
- **Awdurdod Lleol:** cyngor lleol, a gaiff ei arwain gan grŵp o gynghorwyr lleol a etholwyd i wneud penderfyniadau ar sut i wario arian yn yr ardal leol.
- **Llywodraeth Leol:** dyma sut yr ydym yn cyfeirio at yr holl awdurdodau lleol fel grŵp.
- **Cyngor Gofal Cymru:** Cyngor Gofal Cymru yw'r sefydliad sy'n sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr gofal eraill wedi'u hyfforddi'n gywir i wneud eu gwaith yn dda.
- **Y cyfryngau:** papurau newydd, cylchgronau, radio a theledu. Newyddion neu adloniant a gaiff ei ddarlledu neu ei gyhoeddi.

## Neges gan y Cadeirydd

Weithiau, mae teuluoedd yn cael problemau sy'n ei gwneud hi'n amhosibl iddynt aros gyda'i gilydd. Pan fydd hynny'n digwydd, efallai y bydd angen i'r awdurdodau lleol ddod o hyd i gartrefi newydd ar gyfer y plant a'r bobl ifanc. Weithiau, byddant yn mynd i gartref plant, ond, fel arfer bydd gofalwr maeth yn cael ei dalu i ofalu am y plentyn neu berson ifanc yn ei gartref newydd. Bydd gan ofalwyr maeth blant eu hunain weithiau. Byddant i gyd yn byw gyda'i gilydd ac yn gofalu am ei gilydd.

Os na all teuluoedd ofalu amdanynt, mae'n bwysig iawn bod plant a phobl ifanc yn cael gofal da iawn yn eu cartrefi newydd. Mae pob plentyn a pherson ifanc yn wahanol, a bydd angen pethau gwahanol ar bobl gwahanol. Mae'n bwysig iawn ein bod yn darparu'r pethau hynny fel y gall pob plentyn a pherson ifanc wneud y mwyaf o'u bywydau a llwyddo yn y pethau y maent yn mwynhau eu gwneud ac yn dda am eu gwneud.

Mae'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc wedi edrych i weld beth sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y gofal gorau posibl pan na fyddant yn gallu aros gyda'u teuluoedd. Rydym wedi meddwl am y pethau y gellir eu gwella ac rydym wedi gwneud rhai awgrymiadau i Lywodraeth Cymru. Mae pwyllgorau'n galw'r awgrymiadau hyn yn 'argymhellion'. Bydd Llywodraeth Cymru yn meddwl am yr argymhellion ac yn dweud wrthym cyn hir pa rai y maent yn bwriadu eu gweithredu.

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor am wneud y gwaith hwn, ac i'r bobl a wnaeth roi'r wybodaeth angenrheidiol i'n helpu i wneud penderfyniadau. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r grwpiau o bobl ifanc mewn gofal a rannodd eu profiadau gyda ni. Roedd y wybodaeth honno'n help i ni ddeall pa mor bwysig ydoedd ein bod yn gwneud y penderfyniadau cywir.

## Crynodeb ac argymhellion

Mae llawer o bethau i feddwl amdanynt wrth geisio dod o hyd i'r cartref cywir ar gyfer plentyn neu berson ifanc sy'n mynd i mewn i ofal. Mae'r bobl sy'n gorfod meddwl am y pethau hyn yn gweithio i'r awdurdodau lleol, ac mae'n rhaid iddynt sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y gofal angenrheidiol.

Mae angen i blant a phobl ifanc sy'n mynd i mewn i ofal allu dweud beth maent yn feddwl fydd ei angen arnynt gan y bobl sy'n gofalu amdanynt a'r lle y byddant yn byw ynddo. Bydd hyn yn help i sicrhau bod y lle gorau yn cael ei ddewis ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc dan sylw.

Mae rhai adegau pan fydd angen i blentyn neu berson ifanc fynd i mewn i ofal oherwydd bod rhywbeth annisgwyl wedi digwydd. Pan fydd hynny'n digwydd, nid yw bob amser yn bosibl treulio llawer o amser yn meddwl a siarad am holl anghenion y person hwnnw cyn ei symud i ofal. Fodd bynnag, pan fydd hynny'n digwydd rydym yn credu ei bod yn bwysig bod awdurdodau lleol yn trafod ac yn meddwl mor fuan â phosibl ar ôl symud y plentyn, er mwyn penderfynu a ddylid ei symud i rywle gwahanol, pe byddai hynny'n gweddu'n well i'w anghenion.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru i ofyn pa mor aml nad yw plentyn neu berson ifanc sy'n mynd i mewn i ofal yn cael dweud beth sydd ei angen**

**arno o fewn 14 diwrnod i gael ei symud. Os yw hyn yn digwydd yn aml, dylai Llywodraeth Cymru wneud rhywbeth i sicrhau ei fod yn digwydd yn llai aml.**

Weithiau, nid oes cartref ar gael sy'n cynnwys yr holl bethau mae plentyn neu berson ifanc ei angen. Pan fydd hynny'n digwydd, caiff cartref gyda'r mwyafrif neu rai o'r pethau y mae plentyn neu berson ifanc ei eisiau ei ddewis yn lle hynny.

Pan fydd plentyn neu berson ifanc yn mynd i mewn i ofal, mae'n bwysig iawn bod y lle sy'n cael ei ddewis yn gywir ar ei gyfer. Weithiau, nid y person sydd mewn gofal sy'n anhapus, ond y gofalwr. Os felly, efallai y bydd angen dod o hyd i rywle newydd i'r person fyw ynddo. Dywedodd un person ifanc sydd mewn gofal wrthym ei fod wedi symud 11 o weithiau mewn 7 mlynedd. Nid ydym o'r farn bod hyn yn deg, a dylai plant a phobl ifanc gael rhywle i fyw lle y gallant aros nes eu bod yn barod i adael.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn siarad ag awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn canfod pa fathau o gartrefi sydd eu hangen ar blant a phobl ifanc, ac os yw hynny'n newid dros amser. Dylent rannu'r wybodaeth hon gyda phawb.**

Weithiau, mae plant a phobl ifanc yn cael llefydd newydd i fyw ynddynt sydd yn anaddas ar eu cyfer. Gall hyn fod oherwydd nad yw'r bobl sy'n gweithio i awdurdodau lleol

wedi gwrando yn ddigon da ar yr hyn y mae'r plant a'r bobl ifanc sydd dan eu gofal ei angen.

Weithiau, mae gan awdurdodau lleol gymaint o blant a phobl ifanc i ofalu amdanynt fel nad oes digon o amser ganddynt ag y dylai fod i feddwl am beth mae pob unigolyn ei angen.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn canfod pa offerynnau y mae awdurdodau lleol yn eu defnyddio i benderfynu lle dylai plant mewn gofal fyw. Dylai Llywodraeth Cymru geisio gwella'r offerynnau hynny.**

**Rydym yn argymell y dylai gofalwyr maeth, nad ydynt yn gweithio i awdurdodau lleol, gael dweud eu dweud hefyd am yr offerynnau y mae awdurdodau lleol yn eu defnyddio.**

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod gofalwyr maeth nad ydynt yn gweithio i awdurdodau lleol yn gallu dweud eu dweud am sut mae awdurdodau lleol yn siarad am bethau gyda nhw.**

Ceir rhai adegau pan fydd awdurdod lleol yn poeni am faint fydd cartref newydd yn ei gostio. Os bydd cartref yn ddrud, gall yr awdurdod lleol ddewis cartref arall, ond nid y cartref gorau i'r plentyn neu berson ifanc o anghenraid.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn dweud wrth awdurdodau lleol i beidio meddwl am y gost wrth**

**chwilio am y cartref newydd gorau ar gyfer plentyn neu berson ifanc. Dim ond wrth geisio penderfynu rhwng dau le sydd yr un mor dda a'i gilydd i'r plentyn neu berson ifanc y dylent ystyried y gost.**

Mae'n bwysig iawn bod y bobl sy'n gofalu am y plentyn neu'r person ifanc yn gwybod llawer o bethau amdanynt. Er enghraifft, dylent gael gwybod os yw'r plentyn wedi bod yn sâl neu os oes rhywbeth wedi'i gynhyrfu. Os na fydd y gofalwr yn gwybod am y rhain, gallai'r plentyn neu'r person ifanc fynd yn sâl neu gael ei gynhyrfu eto.

Weithiau, nid yw'r gofalwyr yn cael gwybod popeth y dylent gael ei wybod amdanynt. Gall hyn fod oherwydd bod yr awdurdodau lleol yn poeni na fyddai'r gofalwr am ofalu am y plentyn os nad oedd yn hoffi rhywbeth am y plentyn. Neu, efallai nad oedd yr awdurdod lleol yn meddwl bod angen i'r gofalwr gael gwybod.

Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai'r gofalwr gael gwybod cymaint â phosibl am y plentyn neu berson ifanc y mae'n gofalu amdano bob amser. Bydd hyn yn help i'r gofalwr ddeall y plentyn neu berson ifanc yn well, ac yn sicrhau, petai'r plentyn neu berson ifanc yn sâl, ei fod yn cael y driniaeth gywir yn syth.

Wrth glywed am sut y mae plant a phobl ifanc yn cael eu lleoli mewn gofal cawsom ein synnu gan faint o bobl a ddywedodd y dylai gofalwyr maeth gael eu trin fel gweithwyr proffesiynol. Mae hynny'n golygu y byddent yn

hoffi cael eu trin yn yr un ffordd â'r bobl eraill oedd yn gwneud penderfyniadau am beth oedd orau i'r plant a phobl ifanc a oedd yn mynd i mewn i ofal.

Pe byddai hyn i ddigwydd, nid ydym yn credu y byddai'r gofalwyr yn caru'r plant a phobl ifanc sydd yn eu gofal ddim llai, ond efallai y byddent yn gallu cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt gan yr awdurdod lleol yn haws.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud rhywbeth i sicrhau bod gofalwyr maeth yn cael eu trin fel gweithwyr proffesiynol. Un o'r pethau y dylai Llywodraeth Cymru ei wneud i sicrhau bod hyn yn digwydd yw siarad â Chyngor Gofal Cymru i weld a allan nhw helpu.**

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn dweud wrth awdurdodau lleol sut i rannu gwybodaeth yn well gyda phawb sy'n gysylltiedig â gofalu am blant a phobl ifanc mewn gofal, yn enwedig gofalwyr maeth.**

Pan fydd plentyn neu berson ifanc mewn gofal, mae'n bwysig siarad â nhw'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i dderbyn y cymorth angenrheidiol. Wrth ofyn i blant a phobl ifanc beth oedd ei angen arnynt, clywsom nad oedd gweithwyr proffesiynol yn gwrando'n iawn arnynt bob amser.

**Rydym yn argymell bod cwestiynau'n cael eu gofyn i blant a phobl ifanc mewn ffordd sy'n gwneud iddyn nhw**

**deimlo'n gyfforddus, a bod gweithwyr proffesiynol yn gwrando ar yr atebion ac yn gweithredu arnynt. Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn gyfraith bod yn rhaid i weithwyr proffesiynol wrando ar blant a phobl ifanc cyn iddynt fynd i mewn i ofal, tra eu bod yn derbyn gofal ac ar ôl gadael gofal.**

Dywedodd llawer o bobl wrthym bod gofalwyr maeth yn bwysig iawn gan eu bod yn dod yn ail rieni i'r plant y maent yn gofalu amdanynt ac yn eu caru a'u cefnogi. Clywsom hefyd ei bod yn gallu bod yn anodd ar deuluoedd maeth i weithio fel teuluoedd eraill, gan nad yw gofalwyr yn cael gwneud penderfyniadau y mae rhieni eraill yn eu gwneud o hyd, er enghraifft os caiff y plentyn neu berson ifanc fynd ar drip ysgol neu aros draw yn nhŷ ffrind.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ceisio cael rhagor o bobl i weithio fel gofalwyr maeth. Dylent hefyd wneud yn siŵr bod gofalwyr maeth yn cael gwneud yr un math o benderfyniadau â rhieni eraill.**

Clywsom ei bod yn anodd bod yn deulu maeth weithiau, a'i bod yn bwysig y gall gofalwyr maeth siarad â rhywun os oes angen help arnynt.

**Rydym yn argymell y dylai teuluoedd maeth gael yr hawl i ddweud eu dweud am sut y gellir gwella gwasanaethau cymorth ar eu cyfer.**

Weithiau, mae llawer o blant a phobl ifanc y mae'n rhaid i awdurdodau lleol gadw llygad arnynt neu blant a phobl ifanc a fydd angen eu rhoi mewn gofal. Er mwyn gwneud hyn, maent yn cyflogi gweithwyr cymdeithasol. Gall gweithwyr cymdeithasol fod yn gyfrifol am lawer o blant a phobl ifanc, ac weithiau ni allant dreulio cymaint o amser ag hoffent gyda phob un. Clywsom nad oedd rhai gweithwyr cymdeithasol yn gwneud y swydd am lawer o amser gan ei bod yn swydd anodd ac y gall y cyfryngau fod yn negatif iawn amdanynt.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ceisio cael y cyfryngau i fod yn fwy positif am y gwaith caled y mae gweithwyr cymdeithasol yn ei wneud, ac yn ceisio dod o hyd i ffyrdd o leihau'r gwaith papur y mae'n rhaid i weithwyr cymdeithasol ei wneud fel y gallant dreulio rhagor o amser gyda'r plant a'r bobl ifanc y maent yn edrych ar eu holau.**

Clywsom fod iechyd plant a phobl ifanc sydd mewn gofal yn waeth na'r rhai nad oedd mewn gofal.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn helpu gweithwyr iechyd proffesiynol, fel doctoriaid a nyrsys, i weithio gyda'i gilydd ac i ganfod ffyrdd gwell o ofalu am iechyd plant a phobl ifanc mewn gofal.**

Clywsom mai yn bell o'r ardal lle mae eu teuluoedd yn byw yw'r lle gorau i blant a phobl ifanc symud i fyw iddo weithiau, ond gan amlaf dylent aros yn yr un ardal,

oherwydd mai dyna lle mae eu ffrindiau a’u hysgol. Mae rhai plant yn cael cartrefi newydd mewn ardaloedd sy’n bell o’u teuluoedd oherwydd nad oedd llefydd addas i fyw’n agosach at adref.

Clywsom hefyd y gall plant a phobl ifanc sy’n symud i fyw i sir wahanol fethu â chael y gofal iechyd neu gymorth arall sydd ei angen arnynt.

**Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda awdurdodau lleol i sicrhau bod plant yn cael yr holl ofal sydd ei angen arnynt, gan gynnwys gofal iechyd, yn enwedig os byddant yn byw y tu allan i’w hawdurdod lleol arferol.**